

ETHOLIAD SENEDD CYMRU 2021

#RNID2021WS

RN
I:D



Pwy yw RNID?

RNID yw'r elusen sy'n gweithio i wneud bywyd yn llwyr gynhwysol i bobl fyddar a'r rheiny sydd â cholled clyw neu dinitws. Gyda'n gilydd, rydym yn ymgyrchu dros gymdeithas gynhwysol. Rydym yn cysylltu pobl â chynghorion ymarferol ac rydym yn ariannu ymchwil i arloesi triniaethau newydd ar gyfer colled clyw neu dinitws.

Gelwid RNID gynt yn Gweithredu ar Golled Clyw.

Pam mae'r etholiad hwn yn bwysig i bobl sydd â cholled clyw?

Yng Nghymru, mae 1 o bob 5 o'r boblogaeth yn fyddar neu mae ganddynt golled clyw – mae hynny oddeutu 600,000 o bobl – cyfartaledd o fwy na 15,000 o oedolion ym mhob un etholaeth yn y Senedd a mwy na 120,000 o oedolion ym mhob un o'r rhanbarthau etholiadol. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd hyn yn cynyddu i thua 70% o bobl dros 70 oed a chanddynt golled clyw.

Dros y 12 mis diwethaf, yn ystod y pandemig byd-eang, ni chafodd yr anghydraddoldebau mewn cymdeithas erioed o'r blaen eu hamlygu mor llym ledled Cymru i'r bobl hynny sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw. Mae'r orfodaeth i wisgo gorchuddion ar yr wyneb wedi arwain at lawer gormod o bobl fyddar yn teimlo'n ynysig ac wedi'u gwahanu oddi wrth y byd mawr y tu allan ac oddi wrth fywyd ei hun, wrth iddynt ddibynnu ar fynegiant yr wyneb a darllen gwefusau i allu cyfathrebu.

1 o bob 5

**oedolyn yn fyddar
neu wedi colli eu
clyw**

Beth rydyn ni ei eisiau!

Galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu i roi sylw i'r mater iechyd cyhoeddus a chymdeithasol sylweddol hwn. Mae gweithredu'n hanfodol oherwydd bod:

Un o bob pedwar o bobl oed gweithio sydd â cholled clyw yn ddi-waith!

Nad yw 33% o'r unigolion hynny a allai elwa o declynnau clyw yn meddu arnynt!

Colled clyw yw'r ffactor risg addasadwy mwyaf ar gyfer dementia!

600,000
o bobl yng Nghymru yn fyddar neu wedi colli eu clyw

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gwaith cyfredol RNID yng Nghymru a'r hyn y mae arnom ei angen gan lywodraeth a llunwyr polisi i wneud bywyd yn llwyr gynhwysol i bobl fyddar a'r rheiny sydd â cholled clyw neu dinitws yng Nghymru.

Beth fydd RNID yn ei wneud yng Nghymru?

Mae RNID yn ymgyrchu dros gymdeithas gynhwysol yma yng Nghymru a ledled gweddill y Deyrnas Unedig. Ni wnawn roi'r gorau iddi hyd nes y gwelwn fyd lle mae pobl fyddar a'r rheiny sydd â cholled clyw neu dinitws yn cael eu llwyr gynnwys a lle y caiff pawb ei drin â pharch, urddas a chydymdeimlad. Ar ôl etholiad Senedd Cymru, bydd RNID yn parhau i ymgyrchu ac i herio Llywodraeth nesaf Cymru i gael gwared â'r rhwystrau y mae cymdeithas yn eu gosod o flaen pobl sydd â cholled clyw.

Croesawn y ddadl ddiweddar yn y Senedd a basiwyd, yn cynnig bod Senedd Cymru "yn nodi" cynigiad ar gyfer Mesur fyddai'n gwneud darpariaeth i annog defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yng Nghymru, i'w gwneud hi'n haws cael at wasanaethau ac addysg mewn Iaith Arwyddion Prydain. Mae hwn yn gam sylweddol yn y daith tuag at Fesur Iaith Arwyddion Prydain, a

a byddwn yn gweithio'n agos â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth Iaith Arwyddion Prydain yn cynnwys gwelliannau gwirioneddol a phendant ym mywydau defnyddwyr byddar o Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ymgyrchu i roi sylw i anghenion y gymuned colled clyw ehangach sy'n dibynnu ar ffurfiau eraill o gymorth cyfathrebu.

Mae gofyn i newid ddigwydd ledled cymdeithas yng Nghymru ac mae hyn yn gofyn am gymorth cryf ac ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth nesaf Cymru. Canfuom dri maes blaenoriaeth y mae arnom eisiau iddyn' nhw a'r Senedd ddangos arweinyddiaeth arnynt.

Beth yw'n tri maes allweddol?

- Cyflogaeth
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Ei gwneud hi'n haws cael at wasanaethau.

Ein Hymrwymiad i Lywodraeth a Senedd nesaf Cymru

Ledled Cymru, mae RNID eisoes yn gweithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Rydym wedi'n llwyr ymrwymo i weithio â, a chynnig cymorth a chynghorion i Lywodraeth newydd Cymru a etholir er mwyn gwella bywydau'r rheiny sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw, a chynorthwyo i ddatblygu polisiau a strategaethau i roi'r un siawnsis a chyfleoedd bywyd i'r bobl hynny yn ein cymunedau yng Nghymru â'u cymheiriaid, drwy gydol eu bywydau.

Karen Robson

Karen Robson, Cyfarwyddwr RNID, Cymru

**Wedi ymrwymo
i weithio gyda
Llywodraeth
nesaf Cymru**

Pa gynnydd y mae arnom eisiau'i weld erbyn 2026?

Pobl â byddardod, tinitws a cholled clyw i gael cyfleoedd cyfartal yn y gweithle fel eu bod yn gallu gwireddu'u potensial.



Cyflogaeth

Beth mae ar Lywodraeth nesaf Cymru angen ei wneud?

1.

Sefydlu strategaeth eglur i gynorthwyo pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw i gael gwaith. Dengys gweithrediad SwyddSynnwyr RNID, a ariannir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop tan 2022, y gall pobl sydd â nam ar y synhwyrâu gael eu cynorthwyo'n llwyddiannus i gael gwaith â chymorth priodol cyn-cyflogi gan gynghorwyr arbenigol.

2.


Sicrhau bod pob rhaglen arall sydd â'r nod o helpu pobl anabl i gael gwaith, megis y rheiny a ddarperir gan Gynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru 2018 a chynlluniau adfer ar ôl Covid, yn llwyr hygyrch i bobl sy'n fyddar ac sydd â cholled clyw.

3.

Hyrwyddo'r cynlluniau 'Mynediad i Waith' a 'Cymorth yn y Gwaith' i godi mwy o ymwybyddiaeth o gymorth sydd ar gael i gyflogwyr a gweithwyr, a thrwy wneud hynny, gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n creu gweithleoedd cynhwysol a chefnogol ar gyfer pobl anabl.

Pam?

- Mae yna oddeutu 200,000 o bobl oed gweithio yng Nghymru sydd â rhyw lefel o golled clyw - mae hynny oddeutu 14 o bob 100 o weithwyr.
- Mae un o bob pedwar o bobl oed gwaith sydd â cholled clyw yn ddi-waith, a fyddai fel arall yn cyfrannu at Gynnyrch Domestig Gros Cymru.
- Mae pobl â cholled clyw yn ennill dros £2,000 yn llai nag unigolion nad oes arnynt gyflyrau iechyd – hyd yn oed pan gymerir oed ac addysg i ystyriaeth.
- Yn ein harolwg barn YouGov o arweinwyr busnes, dywedodd 35% na fyddent yn hyderus yn cyfathrebu ag aelod o staff sydd â cholled clyw.
- Mae'r ymwybyddiaeth o 'Mynediad i Waith' ymysg pobl sy'n fyddar/sydd â cholled clyw a chyflogwyr, fel ei gilydd, yn dal yn isel. Cytunodd 57% o arweinwyr busnes fod yna ddiffyg cymorth a chynghorion ar gael ynglŷn â chyflogi rhywun sydd â cholled clyw, ac nid oedd dau o bob tri y gwnaed arolwg ohonynt wedi clywed am 'Mynediad i Waith'.
- Dywedodd hanner y bobl hynny sydd â cholled clyw a dderbyniodd 'Mynediad i Waith' nad oedd y cymorth wedi diwallu o leiaf rhai o'u hanghenion.



Dywed ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer ein hadroddiad 'Gweithio dros Newid' (2018) wrthym fod:

Pobl oed gwaith sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw yn wynebu rhwystrau mawr rhag gwireddu'u potensial yn y gwaith ac mai'r rhwystr mwyaf sydd yn eu hwynebu yn y gweithle yw agwedd cyflogwyr.

Mae gan weithwyr na chânt eu cynorthwyo i reoli'u colled clyw yn y gweithle lai o gyfleoedd am ddyrchafiad ac maent yn fwy tebygol o ymddeol yn gynnar oherwydd yr anawsterau sydd yn eu hwynebu yn y gwaith.

Pa gynnydd y mae arnom eisiau'i weld erbyn 2026?

Gall pobl sydd â cholled clyw gael at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, gan wneud defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf i ddiwallu'u hanghenion.



**Iechyd a
Gofal
Cymdeithasol**

Beth mae ar Lywodraeth nesaf Cymru angen ei wneud?

Sicrhau bod yna'r cydymffurfio ehangaf posibl â'r safonau a nodir yn Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cymru, 2017-2020 (Fframwaith gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl fyddar a'r rheiny sydd â cholled clyw), a gyhoeddwyd ym mis Mai, 2017.

Fel bod:

- Na ddylai pobl mewn cartrefi gofal neu gartrefi preswyl aros yn hwy am gynnal a chadw ac atgyweirio teclynnau clyw na neb arall.
- Pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw yn gallu cael at wasanaeth Uwch-ymarferydd Awdioleg mewn gofal sylfaenol ar gyfer eu cyswllt cyntaf yn eu taith colled clyw.
- Byrddau lechyd yn hwyluso cyflenwi rheoli cwyr clustiau lleol fel a argymhellir gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd i:

- Canfod i ba raddau y caiff hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod/colled clyw cenedlaethol, yn cynnwys nam ar y clyw a'r golwg a chysylltiadau rhwng colled clyw ac iechyd meddwl, eu cynnwys o fewn modiwlau hyfforddi craidd, ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cynnwys pwyslais neilltuol ar adrannau addysg, cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a safleoedd gofal preswyl eraill.
- Gweithio ag awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i nodi ac i gynorthwyo pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a mathau eraill o ofal preswyl fel bod eu hanghenion clyw'n cael eu nodi a'u diwallu yn gyson drwy ddarpariaeth ddigonol o ofal mewnol ac atgyfeiriadau.

Beth mae ar Lywodraeth nesaf Cymru angen ei wneud?

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fuddsoddi mewn technolegau newydd i hwyluso cymorth o bell ac i wella modd o gael at ddarpariaeth Awdioleg.

- Sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'i diwygiwyd yn Fersiwn 2 - Ebrill 2019, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 2016.

Fel bod:

- Unigolion yn cael eu cynorthwyo i nodi a rheoli nam ar y synhwyrâu'n briodol.
- Lle y bo'n briodol, darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unigolion yn derbyn gwiriadau ac yn darparu cymorth i gael at adolygiadau parhaus.
- Lle y darparwyd cymhorthion i unigolion, megis teclynnau clyw a sbectols, staff yn deall eu pwysigrwydd a'u bod yn rhagweithiol wrth gynorthwyo unigolion i'w defnyddio.
- Darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw gymhorthion yn cael eu cynnal yn briodol fel y gellir eu defnyddio'n effeithiol.
- Darparwyr gwasanaethau yn ystyried yr effaith ddichonol ar unigolion sydd â nam ar y synhwyrâu wrth gynllunio'r amgylchedd; er enghraifft, effeithiau sŵn mewn mannau cymunedol ar unigolion sydd â cholled clyw.

Pam?

- Ar gyfartaledd, mae'n cymryd deng mlynedd i bobl ymofyn cymorth â'u colled clyw.
- Dim ond dwy ran o dair o'r rheiny a allai elwa o declynnau clyw sy'n meddu arnynt.
- Mae problemau clyw yn gyfrifol am y gwariant isaf ledled holl categorïau gofal iechyd (0.6% ac £11.57 y pen), ac eir am driniaeth breifat yn aml i roi sylw, er enghraifft, i reoli cwyr clustiau, o ganlyniad i brinder gwasanaethau lleol, hygyrch.
- Gallai trin colled clyw'n effeithiol atal cyflyrau eraill rhag dechrau, megis dementia ac iselder ysbryd, a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.
- Gallai technoleg newydd ganiatáu i bobl â cholled clyw gael at gymorth o bell a gwell cysylltedd â'r byd o'u hamgylch.
- Dywed 47% o bobl sydd â thinitws nad yw eu Meddyg Teulu'n darparu gwybodaeth am dinitws, ac nad atgyfeiriwyd 21% i unrhyw wasanaeth.
- Ystyrir gan NICE fod teclynnau clyw yn ymyriad effeithiol yn glinigol ac o ran cost ac maent yn costio llai na £380 dros lwybr tair blynedd.

Pa gynnydd y mae arnom eisiau'i weld erbyn 2026?

Nid yw pobl sydd â cholled clyw'n wynebu rhwystrau cyson rhag cael at nwyddau a gwasanaethau beunyddiol, ac mae cymdeithas yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o fyddardod.

**Mynediad at
nwyddau a
gwasanaeth
au bob dydd**



Beth mae ar Lywodraeth nesaf Cymru angen ei wneud?

- Sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau'n cael y cymorth y mae arnynt ei angen i gyfathrebu'n dda wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, fel a ddatganir gan Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cymru, 2017-2020 Llywodraeth Cymru (fel sydd uchod).
- Mynnu y cynhwysir mewn cofnodion cleifion eu dulliau cyfathrebu unigol dewisol ac unrhyw gymorth cyfathrebu gofynnol (e.e. dehonglydd laith Arwyddion Prydain sydd wedi'i gymhwyso neu ysgrifennwr nodiadau electronig) i sicrhau cyfathrebu hygyrch. Os bo angen, sefydlu strategaeth ddigidol i sicrhau y gall hyn ddigwydd yn gyson ac yn ddibynadwy ledled Cymru.

- Sicrhau bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo arferion gorau o ran cyfathrebu hygyrch a'u bod yn annog ymgysylltu gan y cyhoedd, cyflogwyr, adwerthwyr a gwasanaethau cyhoeddus.
- Ymrwymo i barhau i ddarparu dehonglydd laith Arwyddion Prydain ar gyfer pob cynhadledd i'r wasg gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol/ar ôl Covid.



Pam?

- Nid yw 60% o bobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw bob amser yn cael yr holl wybodaeth y mae arnynt ei hangen; er enghraifft, yn ystod apwyntiadau â'u Meddyg Teulu.
- Yn ystod y pandemig, daeth hyn yn neilltuol o argyfyngus, o ystyried ei bod hi'n orfodol gwisgo mygydau a gorchuddion dros y trwyn a'r genau, sy'n llesteirio cyfathrebu, ac mae pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw wedi teimlo'n ynysig ac yn bryderus ac yn llai annibynnol.



A ydych yn ymgeisydd yn etholiadau Senedd Cymru 2021?

Tagiwch @RNID ar Twitter a defnyddiwch yr hashnod **#RNID2021WS** i ddangos eich cefnogaeth i ddeisyfiadau maniffesto RNID.

Cysylltwch â RNID yng Nghymru yn

campaigns.wales@rnid.org.uk ganfod mwy o wybodaeth am sut i wneud bywyd yn llwyr gynhwysol i bobl fyddar a'r rheiny sydd â cholled clyw a thinitws.

- ☎ 029 2033 3034
- ✉ wales@rnid.org.uk
- 🌐 www.rnid.org.uk/wales
- 📍 Cwrt Anchor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW



A ydych yn gefnogwr RNID?

Cysylltwch â'ch ymgeiswyr etholaeth a gofynnwch iddynt gefnogi'n maniffesto. Yr ased ymgyrchu mwyaf sydd gan RNID yw angerdd a phrofiad ein cefnogwyr.

Gweithiwn â'n rhwydweithiau ymgyrchoedd i ymchwilio i'r pynciau pwysicaf inni ymgyrchu drostynt, i ddiffinio'r amcanion rydym yn gweithio tuag atynt ac wedyn i gyflwyno gerbron dystiolaeth profiad bywyd drwy weithredoedd ymgyrchu a ysgogir gan bobl.

RNID is the trading name of
The Royal National Institute for Deaf People.
A registered charity in England and Wales (207720)
and Scotland (SC038926). A211047/0221

**RN
I:D**